Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019

Ionawr 2020

1. Cefndir

1. Gwnaed Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019 gan Lywodraeth y DU ar 4 Hydref 2019, ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 7 Hydref 2019. Daeth y Rheoliadau i rym ar 29 Hydref 2019.

2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Ar 17 Rhagfyr 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, gosododd Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019.

2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

4. Mae'r memorandwm yn nodi'r canlynol:

> "Amcan yr OS yw diweddaru'r diffiniad o' EEA State 'yn Neddf Peilotiaeth 1987. Mae'n ymwneud â derbyn cymwysterau gan wladwriaethau sy'n rhan o Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

(AEE). Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, nid yw'r diffiniad o Wladwriaeth AEE yn Neddf Peilotiaeth 1987 yn cynnwys gwladwriaethau a ddaeth yn rhan o Gytundeb yr AEE ar ôl mis Mawrth 2003 pan fewnosodwyd y diffiniad yn y Ddeddf. "[1]

5. Mae paragraffau 6 i 10 o'r Memorandwm yn cynnwys y ddarpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr offeryn statudol. Mae'r memorandwm yn nodi'r canlynol:

> "Y ddarpariaeth berthnasol yn yr OS yw rheoliad 2.
>
> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn berthnasol i 'beilotiaeth ddatganoledig', hynny yw peilotiaeth sydd
>
> a. sy'n ymwneud â harbwr sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl yng Nghymrunad yw'n borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl; a
>
> b. a ddarperir o fewn awdurdodaeth peilotiaeth nad yw'n ymestyn y tu hwnt i Gymru." [2]

6. Mae paragraffau 11 i 13 o'r Memorandwm yn esbonio pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y mae'n briodol i'r offeryn statudol wneud y ddarpariaeth hon. Mae'r memorandwm yn nodi'r canlynol:

> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur i ymdrin â'r diwygiadau hyn yn y Rheoliadau hyn. Mae'r newid a wnaed yn un hollol dechnegol ac annadleuol, ac nid oes unrhyw newid i bolisi."[3]

7. Ar 17 Rhagfyr 2019, ysgrifennodd y Gweinidog atom yn dweud ei fod yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl ddechrau mis Ionawr, "i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i ystyried OS cyn i'r 'cyfnod gweddïo' o 40 diwrnod ddod i ben, sy'n rhoi cyfle i ASau wrthod yr offeryn. "[4]

---

[1] Llywodraeth Cymru: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol) ar gyfer Rheoliadau Deddf Peilotiaeth 1987 (Diwygio) 2019, paragraff 3

[2] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraffau 7 ac 8

[3] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraff 12

[4] Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, 17 Rhagfyr 2019

3. Trafodaeth

8. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 6 Ionawr 2020.[5]

4. Casgliad

9. Rydym yn fodlon ar y Memorandwm.

10. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog yn ei lythyr dyddiedig 17 Rhagfyr 2019.

11. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno cynnig i gynnal dadl mewn perthynas â'r Memorandwm hwn.

[5] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 6 Ionawr 2020